sir ddinbych Cyngor
denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel |
| **Dyddiad yr adroddiad** | 27 Tachwedd 2020 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| **Awdur yr Adroddiad** | Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| **Teitl** | **Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Bu i Lywodraeth Cymru lansio ymgynghoriad yn ddiweddar ar eu dull gweithredu arfaethedig o fynd ati i lunio'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i sefydlu'r weithdrefn ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig ledled Cymru. Enw'r Rheoliadau fydd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Strategol) (Cymru) 2021. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys manylion y Rheoliadau, ond yn hytrach yn ceisio adborth ar y dull gweithredu cyffredinol a gynigir.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen cymeradwyaeth i'r ymateb drafft i Lywodraeth Cymru ar eu dull arfaethedig o fynd ati i lunio Rheoliadau y Cynllun Datblygu Strategol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Cymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r dull arfaethedig o fynd ati i ddrafftio Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol, ac mae LIC wedi amlygu y bydd yna gyfleoedd yn y dyfodol i ymgysylltu a dylanwadu ar ganllawiau a deddfwriaeth y dyfodol a fydd yn helpu paratoi a gweithredu Cynlluniau Datblygu Strategol.

4.2 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer datblygu Cynlluniau Datblygu Strategol ar sail dull gweithredu gwirfoddol gan ddau neu fwy o Awdurdodau Cynllunio Lleol neu ar sail cyfarwyddyd Gweinidogol. Mae hefyd yn nodi bod rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio'n gyffredinol â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru ("y Fframwaith") ac unrhyw Gynllun Datblygu Strategol a baratowyd mewn perthynas â'r ardal ddaearyddol dan sylw, a bod rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol ei hun hefyd gydymffurfio â'r Fframwaith. Y bwriad mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Strategol yw cyflwyno dull gweithredu rhanbarthol mwy strategol ar gyfer llunio cynlluniau ar raddfa fwy na Chynlluniau Datblygu Lleol unigol, gyda'r nod o wella'r ffordd y mae'r system gynllunio yn ymdrin â materion sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol.

4.3 Yn yr ardaloedd sydd wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol, bydd angen paratoi Cynllun Datblygu Lleol o hyd. Bydd Cynlluniau Datblygu Lleol a gaiff eu paratoi o dan Gynllun Datblygu Strategol a fabwysiadwyd yn fyrrach ac yn fwy penodol, yn ymdrin â materion a pholisïau lleol, yn nodi dyraniadau safle-benodol, ac wedi'u paratoi gan gydymffurfio'n gyffredinol â'r Cynllun Datblygu Strategol a fabwysiadwyd. Cyfeirir at y Cynlluniau Datblygu Lleol a gaiff eu paratoi o dan Gynllun Datblygu Strategol fel Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno. Mae LIC yn rhagweld y bydd gwaith yn dechrau ar y rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno newydd yn ystod gwanwyn 2021, gan anelu at ddod â'r rheoliadau i rym erbyn gwanwyn/haf 2022. Cynhelir ymgynghoriad penodol a gwaith ymgysylltu ag Awdurdodau Cynllunio Lleol ar reoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno cyn cwblhau'r rheoliadau.

4.4 Cyflwynwyd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau i'r Senedd ym mis Tachwedd 2019. Mae hwn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a'r rhain fydd yn gyfrifol am baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Bydd Sir Ddinbych yn cael ei chynnwys yn rhanbarth Gogledd Cymru. Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig

hyn yn cyflawni swyddogaethau sy’n ymwneud â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol, datblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ac yn ogystal, bydd pŵer ganddynt i hyrwyddo neu wella llesiant economaidd eu hardal. Mae ymgynghoriad hefyd wrthi’n cael ei gynnal ar y rheoliadau drafft sy’n sefydlu’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ond nid yw hynny’n rhan o'r adroddiad hwn.

4.5 Mae LIC yn ystyried y dylai Rheoliadau’r Cynlluniau Datblygu Strategol adlewyrchu i raddau helaeth y camau allweddol a gofynion paratoi cynlluniau y Cynlluniau Datblygu Lleol. Y gwahaniaeth allweddol rhwng Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Datblygu Strategol yw maint, gan mai cynlluniau rhanbarthol fydd y rhain i bob pwrpas, a chaiff yr egwyddor hon ei hadlewyrchu yn Rheoliadau’r Cynlluniau Datblygu Strategol. Mae LIC yn cynnig y dylai Cynllun Datblygu Strategol allu cael ei baratoi a’i fabwysiadu o fewn 4 blynedd, sy’n debyg i’r broses bresennol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol.

Dyma’r camau allweddol arfaethedig:

- **Cam 1: Y Cytundeb Cyflenwi, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau ac amserlen ar gyfer paratoi cynlluniau**
  Cyn dechrau gwaith ffurfiol ar y Cynllun Datblygu Strategol, rhaid i’r Cyd-bwyllgor Corfforedig ymgysylltu â’i gymunedau, gan gynnwys cyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol, ar gynnwys Cynllun Cynnwys Cymunedau ac amserlen ar gyfer paratoi cynlluniau, y cyfeirir atynt gyda’i gilydd fel y Cytundeb Cyflenwi. Dyma fydd y prif gyfrwng ar gyfer nodi sut a phryd y caiff cymunedau eu cynnwys yn y broses ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol, er mwyn iddynt allu llywio a dylanwadu ar eu hardal yn effeithiol.

- **Cam 2: Ymgysylltu Cyn Adneuo**
  Bydd hyn yn cynnwys gwaith ymgysylltu â budd-ddeiliaid i nodi ac egluro materion ac opsiynau.
  Bydd y rheoliadau hefyd yn dynodi bod rhaid cynnal ‘galwad am leoliadau a safleoedd strategol’ cyn y gall Cyd-bwyllgor Corfforedig ymgynghori’n ffurfiol ar ei Strategaeth a Ffefrir. Gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig neu bartïon eraill â diddordeb gynnig lleoliadau a safleoedd strategol. Caiff yr holl leoliadau a safleoedd strategol a ddaw i law eu cyhoeddi mewn ‘Cofrestr o Leoliadau a Safleoedd Strategol Ymgeisiol’, a gyhoeddir ochr yn ochr â’r Strategaeth a Ffefrir, gan alluogi pobl i gyflwyno sylwadau arnynt.

- **Cam 3: Y Strategaeth a Ffefrir – Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn Adneuo a Chrynodeb o’r Ymatebion a Ddaeth i Law**
  Y Strategaeth a Ffefrir yw’r cam ymgynghori statudol cyntaf yn y broses ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol. Bydd y Strategaeth a Ffefrir a’r dystiolaeth ategol yn destun cyfnod ymgynghori statudol o 6 wythnos o leiaf. Mae’n nodi’r dull cyffredinol o ymdrin â maint a lleoliad y twf ac yn sicrhau y caiff datblygiad ei gynllunio mewn modd cynaliadwy. Mae’n darparu’r

fframwaith strategol ar gyfer polisïau, cynigion a dyraniadau defnydd tir penodol manylach, a gaiff eu cynnwys wedyn yn y Cynllun Datblygu Strategol Adneuo.

- **Cam 4: Y Cynllun Adneuo – Ymgynghoriad Cyhoeddus a Chrynodeb o'r Ymatebion a Ddaeth i Law**
  Y Cynllun Adneuo yw'r cynllun y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei ystyried yn 'gadarn' ac y mae'n bwriadu ei gyflwyno i'w archwilio yn dilyn yr ymgynghoriad, ac y gellir ei fabwysiadu. Rhaid ymgynghori am o leiaf chwech wythnos ar y Cynllun Adneuo. Bydd yn cynnwys y strategaeth ofodol derfynol ar gyfer pob math o ddefnydd tir, gan gynnwys dyraniadau safle strategol. Caiff ei ategu gan fap/ mapiau cynigion. Cyflwynir sail tystiolaeth ategol ac adroddiadau terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd. Caiff unrhyw bolisïau a chynigion sydd â goblygiadau gofodol eu hadlewyrchu ar fap/ mapiau cynigion yn seiliedig ar yr Arolwg Ordnans. Bydd y Cynllun Adneuo yn cynnwys polisïau a chyfiawnhad rhesymegol dros yr amrywiaeth o feysydd pwnc sy'n berthnasol i ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

- **Cam 5: Cyflwyno'r Cynllun Adneuo i'r Cyhoedd ei Archwilio a'i Fabwysiadu**
  Pan fydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi ystyried yr holl sylwadau a ddaeth i law yn ystod y Cam Adneuo, caiff gyflwyno'r Cynllun Datblygu Strategol i'r Cyhoedd ei Archwilio. Rhaid i'r arolygydd penodedig ystyried pob sylw 'a wnaed yn briodol' a phenderfynu a yw'r Cynllun Datblygu Strategol yn 'gadarn'. Swyddogaeth yr archwiliad yw asesu a ddilynwyd y gofynion paratoi ac a yw'r Cynllun Datblygu Strategol a gyflwynwyd yn bodloni'r profion cadernid.
  Pan fydd y broses archwilio wedi dod i ben, bydd yr Arolygydd yn gwneud argymhellion cyfrwymol (yn Adroddiad yr Arolygydd), gan nodi naill ai y dylid mabwysiadu'r cynllun fel ag y mae neu ar ôl gwneud y newidiadau a nodwyd. Dylai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fabwysiadu'r cynllun, yn seiliedig ar newidiadau'r Arolygydd, o fewn 8 wythnos i dderbyn yr adroddiad.

- **Cam 6: Monitro, Adolygu a Diwygio**
  Bydd rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gyhoeddi ac anfon Adroddiad Monitro Blynyddol at Weinidogion Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl ei fabwysiadu. Bydd hwn yn asesu i ba raddau y mae strategaeth a pholisïau, safleoedd a gofynion seilwaith allweddol y cynllun yn cael eu cyflawni, ac yn dod i gasgliad o ran a oes angen diwygio'r Cynllun Datblygu Strategol.
  Bydd rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig adolygu ei Gynllun Datblygu Strategol o fewn 4 blynedd i ddyddiad ei fabwysiadu fan bellaf. Gall Cyd-bwyllgor Corfforedig benderfynu adolygu ei gynllun yn gynharach os bydd tystiolaeth o'r Adroddiad Monitro Blynyddol, neu'r broses o gyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yn awgrymu mai dyma'r cam gweithredu mwyaf priodol i ymdrin â'r materion, neu i sicrhau bod y Cynllun Datblygu Strategol yn cydymffurfio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

4.6 Bydd Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn diffinio'r cyrff ymgynghori y dylid eu cynnwys fel rhan o broses y Cynlluniau Datblygu Strategol. Dim ond y gofynion sylfaenol fydd y rhain a gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig, drwy ei Gynllun

Cynnwys Cymunedau, ddynodi cyrff ychwanegol a grwpiau eraill â diddordeb fel y gwêl yn briodol ac yn berthnasol i ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae unrhyw Awdurdod Cynllunio Lleol a Chyngor Cymuned y mae ei ardal yn rhan o ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig, neu'n cydffinio â'r ardal honno, wedi'u dynodi yn y rhestr arfaethedig o gyrff y mae'n rhaid ymgynghori â hwy, a byddent felly'n cael cyfle i gyfrannu ar y camau allweddol yn natblygiad y Cynllun Datblygu Strategol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw cyflwyno ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond unwaith y bydd Cynllun Datblygu Strategol wedi'i fabwysiadu ar gyfer Gogledd Cymru, bydd yn rhan o'r Cynllun Datblygu ar gyfer y Sir, yn ogystal ag yn llywio cynhyrchiad unrhyw Gynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol drwy osod polisi rhanbarthol ac amlinellu'r fframweithiau gofodol ar gyfer lleoli datblygiadau, gan lywio twf a buddsoddiadau'r dyfodol.

# 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ni fyddai unrhyw oblygiadau cost uniongyrchol ychwanegol yn deillio o gytuno i'r Ymateb i'r Ymgynghoriad i Lywodraeth Cymru.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les am nad yw'r adroddiad yn ceisio penderfyniad ar bolisi, strategaeth, na rhaglen y Cyngor.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Trafodwyd dull gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru o fynd ati i bennu Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol yng nghyfarfod y Grŵp Cynllunio Strategol ar 25.11.20, ac mae'r trafodaethau hynny wedi llywio'r ymateb arfaethedig, sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau i’r gyllideb yn deillio o gytuno i'r ymateb i’r ymgynghoriad i Lywodraeth Cymru.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae ymgysylltu mewn ymgynghoriad yn rhoi’r cyfle i leisio cefnogaeth neu fynegi gwrthwynebiadau. Drwy beidio ag ymateb i’r ymgynghoriad, ni fyddai llais Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei glywed ar bolisi a gweithdrefnau cynllunio cenedlaethol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Pwerau a ddirprwywyd i'r Aelod Arweiniol fel y manylir yn Atodiad 2(b) Adran 13 Cynllun Dirprwyo’r Aelodau yng Nghyfansoddiad y Cyngor.